Siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned

Un ffordd o sefydlu perthynas weithio agosach a mwy effeithiol rhwng y cynghorau tref a chymuned a'r awdurdodau unedol yw drwy siarteri ffurfiol neu gytundebau. Mae'r rhain yn nodi'r modd y mae'r ddwy haen o lywodraeth yn cyfnewid gwybodaeth ac yn ymgynghori â'i gilydd.

Mae dau awdurdod unedol yng Nghymru ar hyn o bryd, sef Caerffili a Torfaen, sydd â siarteri (cytundebau) gyda'u cynghorau tref a chymuned.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i hyrwyddo'r defnydd o'r siarteri hyn ac mae wedi cyhoeddi dogfen arweiniad dan y teitl ***Cymuned ar y Cyd - Meithrin cydberthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref***, sy'n cynnwys model o siarter ac sydd ar gael o http://new.wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/asharedcommunity.

Mae agweddau y gellir eu cwmpasu mewn siarter gynnwys cynllunio defnydd o dir. Fe welwch isod bennod berthnasol y model o siarter:

Cynllunio'r Defnydd o Dir

Mae cynghorau tref a chymuned yn adnabod ac yn deall eu hardal leol a rhaid iddynt allu gwneud sylwadau ar faterion cynllunio mewn ffordd effeithiol. Gall y cyngor unedol gymryd trosolwg o anghenion yr ardal leol gyfan a gwneud penderfyniadau, gan ystyried safbwyntiau lleol.

Awdurdod Unedol	**Cynghorau Tref a Chymuned**
Cynnal ei ddyletswydd statudol i ymgynghori â chynghorau tref a chymuned ar bob cais cynllunio yn eu cymunedau.	Rhoi ymatebion priodol i'r awdurdod unedol gan gydnabod y cyfyngiadau a bennir gan gyfraith gynllunio a pholisi cynllunio cytûn.
Gwahodd cynrychiolwyr o gyngor tref neu gymuned i gymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio yn ei ardal.	Sicrhau bod cynghorwyr yn cael hyfforddiant ar faterion cynllunio a bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut mae cyfraith gynllunio yn gweithio.
Hysbysu cyngor tref neu gymuned, yn ysgrifenedig, o'r penderfyniad a wnaed o ran cais cynllunio yn ei ardal o fewn saith diwrnod i wneud y penderfyniad ac, os oes angen, egluro pam bod y penderfyniad yn wahanol i farn y cyngor tref neu gymuned.	Ymateb i faterion cynllunio mewn ffordd wrthrychol a phroffesiynol bob amser.
Rhoi gwybodaeth am gyfarfodydd perthnasol pwyllgorau cynllunio i gynghorau tref a chymuned fel y gallant fod yn bresennol fel arsylwyr.	Cynghorwyr i achub ar y cyfle i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgorau cynllunio yn yr awdurdod unedol.